LlG 35.5.243

# CARREG FEDD
## Y PROFFWYDI;

Neu Fyfyrdod Difrifol mewn Mynwent ar ol

## 106 O WEINIDOGION

Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, y rhai a ymadawsant o'r byd hwn.

Gan EVAN GRIFFITHS (Ieuan o Eifion).

*Tôn: "Difyrwch Gwyr Aberffraw."*

Wele 'nawr mi dreiaf draethu
Galar-ganiad yn ddigelu,
Am y gwiwlon Weinidogion
Welsom gynt ar furiau Seion:
O! mor wael yw eu gwedd,
O! mor wael yw eu gwedd,
Heddyw'n dawel wedi tewi
Dan leni oer y bedd.

Pa le mae y Cynddiluwiaid?
Pa le mae y Patriarchiaid?
Pa le mae yr hen Brophwydi?
Yn y tywod wedi tewi!
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae yr hen Ferthyron?
Pa le mae yr Apostolion?
Pa le mae yr Efengylwyr?
Pa le mae yr hen Ddiwygwyr?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Bunyan a John Wesley,
Martin Luther, Matthew Henry,
Doctor Dodderidge a John Calfin,
Andrew Fuller, Breese, Caerfyrddin?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

W 62/24
YZC5 318201

Pa le mae Dafydd Rees, Llanelli,
A'r ddau Jones, gynt o Lanllyfni,
A John Walters, Ystradgynlais,
Evans, Soar, Hughes o Ddowlais?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Davies, Aberteifi,
Rees Phillips o Lanymddyfri',
Griffiths, Castellnedd, a Bowen,
Jones, Trelech, a Griffiths, Hawen?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Daniel Jones o'r Aber,
Roberts, Dinbych, Williams, Llanfair,
Jones, Maentwrog, J. P. William,
Gyd ag Ismael Jones, Llandinam?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Peters o Gaerfyrddin,
William Williams, Pantycelyn,
Thomas, Bethl'em, John Elias,
Ellis, Llangwm, Christmas Evans?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Davies, Llanymddyfri',
A John Herring, Aberteifi,
Jones, Dolgellau, Morgans, Dole,
Dafydd Davies, Abertawe?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Harris o'r Tynewydd,
Doctor Watts, a Rees, Llanfynydd,
Evans, Mynydd-bach, a Davies,
Jones o Glydach, Evan Harris?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Thomas Davies, Cana,
Jones o'r Moelfro, Thomas, Pisga,
Owens, Soar, Jones, Treffynon,
Jones a Saunders, Capel Seion?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Griffiths o Dyddewi,
Jones, Llangan, a Thomas Aubrey,

Howells, Boran, Jones, Llanddowror,
Jones a Phillips, gynt o Fangor?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Griffiths, Madagascar,
Ac R. Morris o Dredegar,
Hughes, Groeswen, ac Evans, Soar,
Rowland Hill, a Jones o'r Cymer?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Griffiths o Lanwrtyd,
A John Protheroe o Langynyd,
Pugh o Fostyn, Humphreys, Cadle,
Price, Cwmllynell, Evans, Pembre?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Davies, Aberhonddu,
Shadrach Davies, Abertawy,
William Morris o Fryngwran,
William Griffiths o Lanharan?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Ellis, Mynyddislwyn,
Thomas Richards, Jones o Benllwyn,
Hugh Hughes (Tegai), Lloyd o Gaio,
A'r ddau Williams o Landeilo?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Rowlands o Gwmllynell,
Dafydd Williams, Aberangell,
Jones, Caerdydd, a Lewis Powell,
Lloyd o Henllan, Morgan Howell?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Rowlands gynt o Gonwy,
William Jones o Bontarogwy,
A John Joseph o Lanedi,
William Morris tref Llanelli?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Robert Davies, Rhuthyn,
Jones o'r Pandy, Evans, Penrhyn,
Jones, Rhydbach, a Jones, Caernarfon,
Hughes o Saron, Roberts, Brynseion?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Davies, Aberhonddu,
Evans o'r Drewen 'nol hyny,
Morgans o Bontrhydfendigaid,
Henry Rees o dref Llynlleifiaid?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Griffiths o'r Casnewydd,
Williams, Wern, a Rees, Llanewydd,
Dafydd Thomas, Abergwyli,
William Williams, Aberteifi?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae John Jones, Llanddeusant,
A John Griffiths o Lanpumsant,
Thomas Evans o Gaerfyrddin,
A John Williams, Pantycelyn?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Richard o Dregaron,
Daniel Jones o dref Caernarfon,
William Edwards, gynt o Wrecsam,
A'r gwiw glodus Price, Llandinam?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Abram Jones, Llanfyllin,
A John Thomas o Gaerfyrddin,
Dafydd Evans, Aberayron,
Daniel Williams o Dregynon?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Pa le mae Williams o Fanchester,
Jones a Rowlands, Ebenezer,
A John Thomas, Aberteifi,
Dafydd Thomas, Dewibrefi?
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

Ni chawn mwyach byth mo'u clywed
Yn ein hanerch. chwaith na'u gweled;
Hwy sydd wedi myn'd o'n gafael,
Oll i orwedd yn y grafael:
O! mor wael yw eu gwedd, &c.

(I barhau yn y nesaf.)

---

Joseph Williams, Argraffydd, Merthyr.